

Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru - Cymorth i Weithwyr Llawrydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cwestiynau Cyffredin

Cyffredinol

Beth yw diben y Gronfa Gweithwyr Llawrydd?

Diben y Gronfa yw cynorthwyo Gweithwyr Llawrydd sy'n gweithio yn y sectorau diwylliannol sy'n wynebu heriau ariannol yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 o ganlyniad i COVID-19.

Beth ydym ni'n ei olygu wrth 'gweithiwr llawrydd'?

Weithiau gelwir gweithwyr llawrydd yn gontractwyr, efallai eu bod yn rhedeg eu busnesau eu hunain ac yn aml cânt eu diffinio fel gweithwyr hunangyflogedig er eu bod ychydig yn wahanol i'r hunangyflogedig. Gall gweithwyr llawrydd wneud nifer o swyddi ar ran gwahanol gwmnïau, ac yn aml maent yn gweithio ar eu pen eu hunain. Mae gweithwyr llawrydd yn tueddu i weithio ar nifer o gontractau tymor byr, gan gynnig gwasanaethau ac amser i wahanol sefydliadau yn gyfnewid am ffi y cytunwyd arni. Mae gweithwyr llawrydd yn gyffredin yn y diwydiannau cerddoriaeth, ysgrifennu, newyddiaduraeth a dylunio gwe.

Faint o arian sydd ar gael?

Mae £3.5 miliwn ychwanegol ar gael trwy'r trydydd cyfnod byr i gefnogi gweithwyr llawrydd ledled Cymru.

Sut y caiff y cyllid ei ddsbarthu?

Bydd yr arian yn cael ei ddsbarthu gan awdurdodau lleol yng Nghymru, ar ran Llywodraeth Cymru.

Cymhwysedd

Pwy all wneud cais am grant gan y Gronfa Gweithwyr Llawrydd?

Mae cymorth ar gael i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol llawrydd y mae gan eu gwaith ganlyniadau creadigol/diwylliannol uniongyrchol, sy'n gweithio yn yr is-sectorau allweddol canlynol:

- Y Celfyddydau;
- Diwydiannau Creadigol;
- Digwyddiadau sydd ddim yn gysylltiedig â Chwaraeon sydd wedi eu heffeithio'n sylweddol gan y pandemig;
- Digwyddiadau Celfyddydol a Threftadaeth;
- Diwylliant a Threftadaeth.

Mae'r rhain yn sectorau eang, sy'n cwmpasu nifer o alwedigaethau (mae [ffeithlun Ffederasiwn y Diwydiannau Creadigol](#) yn rhoi darlun defnyddiol) ac, mewn egwyddor, gellir

derbyn ceisiadau gan weithwyr llawrydd yn y sectorau hyn. Fodd bynnag, sylwer bod y cyllid hwn yn benodol ar gyfer is-sectorau a swyddi diwylliannol a chreadigol **sydd wedi gorfod rhoi'r gorau i weithio a/neu sy'n wynebu anhawster wrth ailgychwyn oherwydd effaith cyfyngiadau Covid-19.**

Byddwn yn cefnogi gweithwyr llawrydd sy'n gweithio mewn digwyddiadau sydd wedi cael eu heffeithio'n sylweddol gan y pandemig, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn priodasau a digwyddiadau corfforaethol, ond nid digwyddiadau chwaraeon.

Ni ddylai y rhai hynny sydd mewn swyddi sydd wedi gallu parhau ar lefelau gweithgarwch blaenorol neu'n agos at hynny gyda chymorth neu hebdo (e.e. penseiri, dylunwyr graffig a gwe, dylunwyr gemau ac ati) wneud cais.

Ni fwriedir i'r Gronfa hon gefnogi gweithwyr llawrydd yn y sector chwaraeon, ychwaith. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru i drafod cefnogaeth i'r sector chwaraeon yng Nghymru.

Rwy'n weithiwr llawrydd, ond ni allaf ddarparu tystiolaeth o fewn yr amserlenni a nodir ym meini prawf y Gronfa oherwydd fy mod ar gyfnod o absenoldeb tadolaeth / mamolaeth. A yw hyn yn fy ngwneud i'n anghymwys?

Na, rydych yn gymwys i wneud cais. Fodd bynnag, byddem ni eisiau gweld rhywfaint o dystiolaeth o'ch gwaith fel gweithiwr llawrydd. Er enghraifft, gallech chi ddarparu tystiolaeth y tu allan i'r cyfnodau gwaith / colli gwaith cymwys y cytunwyd arnynt ac a nodir yn y canllawiau.

Rwy'n weithiwr llawrydd ond rwyf hefyd yn gweithio'n rhan-amser, a fyddai hyn yn fy ngwneud i'n anghymwys? Os na, a fyddaf yn derbyn swm llai o arian?

Croesewir ceisiadau gan weithwyr llawrydd amser llawn a rhan-amser. Mae'r un grant o £2,500 yn cael ei ddyfarnu yn y ddau achos, yn amodol ar fodloni meini prawf cymhwysedd ehangach. Fodd bynnag, sylwer bod y grant hwn wedi'i dargedu at weithwyr llawrydd y mae angen cymorth arnynt fwyaf oherwydd colli enillion o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Ni fyddem yn disgwyl gweld gweithwyr llawrydd yn gwneud cais os oes ganddynt hefyd swydd â chyflog da sydd wedi eu diogelu rhag y gwaethaf o effaith ariannol COVID-19.

Rwy'n weithiwr llawrydd, ond rwy'n gweithredu fel cwmni cyfyngedig. A yw hynny'n fy ngwneud yn anghymwys?

Na, os gallwch chi ddangos mai chi yw'r unig un sy'n gweithredu yn rhan o'r cwmni cyfyngedig hwnnw ac y gallwch ddarparu manylion drwy eich cyfrifon blynyddol, rydych chi'n dal i fod yn gymwys i wneud cais.

Rwyf wedi cael cymorth Grant Busnesau Newydd yn y gorffennol. A yw hynny'n fy ngwneud yn anghymwys?

Ydy, os wnaethoch chi dderbyn cymorth yn gynharach eleni gan y Grant Busnesau Newydd a lanswyd ym mis Mehefin 2020 o ganlyniad i COVID-19 i helpu busnesau newydd i oroesi canlyniadau economaidd y coronafeirws. Fodd bynnag, os mai dim ond cymorth dechrau busnes cyffredinol yr ydych wedi ei gael yn y gorffennol, rydych yn dal i fod yn gymwys i wneud cais.

Rwyf wedi gwneud cais am gymorth gan Gronfa Adferiad Covid-19 yr Elusen Ffilm a Theledu ar gyfer gweithwyr ffilm, teledu a sinema'r DU. A wyf i hefyd yn gallu gwneud cais am grant o'r Gronfa hon?

Byddem yn cyngori eich bod yn gwneud cais drwy'r ddau gynllun os ydych yn gymwys i wneud hynny, o ystyried yr amserlenni tebyg ar gyfer prosesu ceisiadau. Fodd bynnag, byddwn ni'n gweithio gyda'r Elusen Ffilm a Theledu i nodi ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais drwy'r ddau gynllun, er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau bod y Cronfeydd yn cyrraedd cynifer o weithwyr llawrydd mewn angen â phosibl yng Nghymru. Os cewch grant drwy Gronfa'r Elusen Ffilm a Theledu, mae'n debygol na fyddwch yn cael cymorth ychwanegol gan Gronfa Gweithwyr Llawrydd Adferiad Diwylliannol Cymru.

Rwyf eisoes wedi cael arian gan Gynllun Cadw Swyddi / Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth Llywodraeth y DU, a gaf wneud cais o hyd?

Cewch. Os ydych chi wedi cael cymorth blaenorol naill ai gan Gynllun Cadw Swyddi'r Llywodraeth neu'r Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth a' ch bod yn dal i wynebu heriau ariannol, rydych yn gymwys i wneud cais am y grant hwn.

A yw'r grant yn drethadwy?

Ydy. Bydd yn rhaid ichi ei ddatgan fel incwm gan fod y gronfa yn cefnogi llif arian ac yn incwm yn lle hwnnw a gollwyd oherwydd Covid-19.

Y broses ymgeisio

Sut ydw i'n gwneud cais?

Gall unigolion wneud cais am y grant drwy fynd i Wiriwr Cymhwysedd Grant y Gronfa Adferiad Diwylliannol ar wefan Busnes Cymru:

<https://fundchecker.businesswales.gov.wales/culture/cy>

Os byddwch yn gymwys i wneud cais, cewch eich cyfeirio at wefan eich awdurdod lleol lle byddwch yn gallu defnyddio'r ffurflen gais ar-lein **neu** byddwch yn gallu gofyn am y ffurflen gais.

Faint gaf i wneud cais amdano?

Mae grant o £2,500 ar gael i bob unigolyn, i gefnogi llif arian uniongyrchol i helpu drwy gyfnod yr amhariad.

Pryd gaf i wneud cais?

Mae'r trydydd cyfnod byr o'r Grant Gweithwyr Llawrydd yn agored i geisiadau o ddydd Llun 23 Tachwedd ymlaen.

A fydd fformatau hygyrch o'r ddogfen ganllaw a'r ffurflen gais?

Bydd.

Sut ddylwn i lenwi'r ffurflen os na allaf fynd at y rhyngrwyd?

Os oes gennych chi unrhyw broblemau hygyrchedd a allai eich atal rhag llenwi ffurflen gais ar-lein ffoniwch linell gymorth Busnes Cymru ar 03000 6 03000.

Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau?

Nid oes dyddiad cau ffurfiol ar gyfer ceisiadau.

Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn llwyr o ran hyd y gronfa.

Rwy'n byw yn Rhondda Cynon Taf ond yn gweithio'n bennaf yng Nghaerdydd. I ba awdurdod lleol ddylwn i gyflwyno fy nghais?

Dim ond i'r awdurdod lleol lle'r ydych chi'n byw ar hyn o bryd y cewch wneud cais, nid lle'r ydych chi'n gweithio.

Pa mor gyflym y byddaf yn cael gwybod os ydw i wedi bod yn llwyddiannus?

Byddwn yn cydnabod derbyn eich cais o fewn 10 diwrnod gwaith, ac rydym yn bwriadu prosesu ceisiadau am grant o fewn 30 diwrnod i'w derbyn.

Gwneir penderfyniadau ar geisiadau yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais, tystiolaeth gysylltiedig a gwiriadau gwybodaeth a gynhelir o ffynonellau eraill. Rhaid cyflwyno'r holl wybodaeth sydd ei hangen. Os bydd unrhyw ddata yn anghyflawn neu'n anghywir neu os yw'r dystiolaeth a ddarparwyd yn annigonol byddwn yn cysylltu â chi, ond os na chawn ymateb boddhaol i'n hymholiadau, bydd y cais yn cael ei wrthod.

Os byddaf yn llwyddiannus, pryd byddaf yn cael yr arian?

Os caiff ceisiadau eu cymeradwyo byddwch yn derbyn cynnig grant drwy e-bost yn rhoi gwybod i chi bod y grant wedi'i ddyfarnu. Bydd cynigion grant ar agor am 14 diwrnod – os na dderbynnir y cynnig o fewn y cyfnod hwn, caiff y cynnig ei dynnu'n ôl. Telir grantiau ar y sail bod 100% o'r grant yn cael ei dalu ymlaen llaw.

Rhaid i ymgeiswyr dderbyn y cynnig grant drwy e-bost cyn y gellir talu.

A gaf apelio os nad wyf yn llwyddiannus?

Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwch yn derbyn e-bost yn amlinellu'r rheswm/rhesymau dros wrthod. Nid oes proses apelio. Mae gan yr Awdurdod Lleol ddisgresiwn llwyr ar delerau'r gronfa.

Tystiolaeth / Dogfennau ategol

Beth yw diben gofyn am gyfriflen banc?

Defnyddir cyfriflenni banc i ategu'r manylion banc yr ydych wedi'u cyflwyno. Ni chaiff cyfriflenni banc eu hasesu na'u defnyddio yn rhan o'r broses arfarnu.

Faint o gyfriflenni banc y mae'n rhaid i mi eu darparu a pha mor ddiweddar y dylent fod?

Bydd angen darparu un gyfriflen banc ddiweddar. Y diffiniad o ddiweddar yw cyfriflen banc o un o'r tri mis cyn dyddiad y cais.

A oes rhaid i mi ddarparu cyfriflenni banc personol neu a oes angen iddynt fod yn gyfriflenni cyfrif busnes?

Cewch ddarparu cyfriflenni cyfrif personol neu fusnes, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Sut y mae'n rhaid cyflwyno cyfriflenni banc? A gaf gyflwyno sgrinliniau o fy ap bancio?

Pan fo'n bosibl, dylid darparu copiâu o gyfriflenni llawn. Fodd bynnag, derbynnir sgrinliniau o apiau bancio.

Rwy'n berfformiwr, ac yn defnyddio enw gwahanol fel perfformiwr i'm henw cyfreithiol. Bydd rhywfaint o'r dystiolaeth y byddaf yn ei darparu yn cynnwys fy enw perfformio. A yw hyn yn iawn?

Bydd, ond bydd angen i chi ddarparu rhywfaint o dystiolaeth ategol sy'n cysylltu eich enw cyfreithiol â'ch enw perfformio.

A oes angen darparu'r holl 'wybodaeth arall', neu ychydig yn unig? Er enghraifft, a yw darparu CV yn ofynnol neu'n ddewisol?

Oes. Rhaid darparu'r holl wybodaeth a restrir o dan 'gwybodaeth arall'. Ni fyddwn yn gallu prosesu eich cais os yw'n anghyflawn neu os ydych chi wedi methu â chyflwyno'r dogfennau angenrheidiol.

Os na allwch ddarparu CV, derbynnir cyfrif LinkedIn manwl.

Beth ddylid ei gynnwys yn y CV cysylltiedig?

Byddem yn disgwyl i'r ymgeisydd ddarparu CV safonol gan gynnwys eich enw, cyfeiriad, manylion sgiliau a chymwysterau, cyflogaeth / gwaith blaenorol.

Os na allwch ddarparu CV, derbynnir cyfrif LinkedIn manwl.

Pa fath 'arall' o brawf adnabod sy'n dderbyniol?

Mae rhestr benodol o fathau 'eraill' o brawf adnabod sy'n dderbyniol, sef trwydded yrru bapur neu dystysgrif mabwysiadu.

Ar ôl dyfarnu

Pa waith monitro fydd yn cael ei wneud?

Cynhelir ymarfer monitro ar ôl cwblhau'r broses ac mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â chi i gael eich adborth ar weithrediad y Gronfa, i gael gwybodaeth am sut mae'r grant wedi eich cefnogi chi ac i ofyn a ydych chi'n dal i weithio fel gweithiwr llawrydd yng Nghymru.

Byddwn yn cysylltu â chi os ydych chi wedi ymrwmo i'r Adduned Gweithiwr Llawrydd.

Adduned Gweithiwr Llawrydd

Beth yw'r 'Adduned Gweithiwr Llawrydd'?

Un o'r ymrwymadau allweddol sy'n cyd-fynd â'r cyllid hwn yw ein huchelgais i ddatblygu a chyflawni addewid gweithiwr llawrydd. Mae gweithwyr proffesiynol llawrydd yn aml yn cymryd rhan weithredol yn eu cymuned, gan wneud cyfraniad cadarnhaol **i'n lles economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol**. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru alluogi diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu yn ogystal â meddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd. Bydd yr Adduned Gweithiwr Llawrydd yn helpu i greu partneriaeth rhwng gweithwyr llawrydd creadigol a chyrrff cyhoeddus i gyflawni hyn, ac yn helpu'r sector cyhoeddus i ddefnyddio eich sgiliau allweddol fel gweithiwr llawrydd yn y sectorau diwylliant i'n helpu i ddod â chreadigrwydd a dychymyg i bob agwedd ar fywyd cyhoeddus.

Gallai hyn gynnwys cyd-greu atebion gyda'r gymuned, cyfrannu at gynlluniau datblygu lleol a datblygu neu gyflwyno dulliau newydd o ymdrin â phrosiectau cyfalaf. Gallai hyn fod mewn meysydd o ddiwylliant i iechyd neu ddatblygu cynaliadwy a'r amgylchedd adeiledig. Efallai y bydd gennych brofiad eisoes o weithio ar dir cyhoeddus gyda phartneriaid, bod yn artist sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol, yn aelod o'r Cymdeithas Rhieni ac Athrawon neu'n ymddiriedolwr neu dim ond yn rhywun sy'n mynd ati i weithredu yn eich cymuned sy'n defnyddio eich profiad byw i wneud newid cadarnhaol.

Sut bydd yr Adduned Gweithiwr Llawrydd yn gweithio'n ymarferol?

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gweithgor o randdeiliaid allweddol i ddatblygu syniadau ar gyfer yr addewid gweithiwr llawrydd. Mae'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned llawrydd, undebau a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn rhan o hyn, dylech ymrwymo i'r Adduned Gweithiwr Llawrydd. Byddwn yn defnyddio eich manylion i'ch hysbysu a'ch cynnwys yn y datblygiadau. Rydym yn gwerthfawrogi sgiliau a phrofiad gweithwyr llawrydd. Byddem yn disgwyl i weithwyr llawrydd gael eu talu am unrhyw waith a wneir o ganlyniad i'r Adduned Gweithiwr Llawrydd.

A oes raid i mi gofrestru ar gyfer yr Adduned Gweithiwr Llawrydd?

Na, nid oes rhaid i chi gofrestru ar gyfer yr Adduned Gweithiwr Llawrydd er mwyn cael yr arian hwn. Fodd bynnag, mae manteision i chi fel gweithiwr llawrydd wrth ymrwymo i'r addewid hwn, fel cyfleoedd i gael gwaith cyflogedig.

Os byddaf yn dewis peidio â llofnodi'r Adduned Gweithiwr Llawrydd, a fydd fy nghais yn cael ei drin yn llai ffafriol?

Na, caiff eich cais ei asesu o'i gymharu â meini prawf cymhwysedd yn unig. Nid yw'r Adduned Gweithiwr Llawrydd yn rhan o hyn.